

2018-2021

**STRATEGAETH YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU  
COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS**



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

**Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**2018-2021**

## Cynnwys

1.0	Neges gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu .....	2
2.0	Neges gan y Tîm Ymgysylltu .....	2
3.0	Beth y mae 'Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu' yn ei olygu? .....	4
4.0	Pam ein bod ni eisiau Ymgysylltu a Chyfathrebu.....	4
5.0	Egwyddorion allweddol ein Strategaeth.....	5
6.0	Gyda phwy y byddwn ni'n Ymgysylltu ac yn Cyfathrebu .....	5
7.0	Sut y byddwn yn Ymgysylltu ac yn Cyfathrebu .....	7
8.0	Ystyriaethau Ymgysylltu .....	9
9.0	Gwerthusiad o'n Strategaeth – Mesur Llwyddiant .....	10
	Atodiad A .....	12

## 1.0 Neges gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau

"O fewn fy Nghynllun Heddlu a Throseddau, amlinellais fy mlaenoriaethau; ac un ohonynt oedd 'Cysylltu â Chymunedau'.

Rwyf eisiau sicrhau bod holl aelodau cymunedau ar draws ardal Dyfed a Phowys yn cael cyfle i ymgysylltu gyda mi a gyda'r heddlu. Rwy'n ystyried fy rôl fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddau fel pont rhwng cymunedau lleol a Heddlu Dyfed-Powys ynghyd â'ch asiantaethau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Rwy'n eich cynrychioli chi wrth i mi siarad â swyddogion heddlu ar lefel leol; pan fyddaf yn trafod materion gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, Mark Collins, ar lefel yr ardal gyfan; a hefyd pan fyddaf yn siarad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a San Steffan am faterion plismona ar lefel genedlaethol.

Gan hynny rwyf eisiau rhoi cymaint o gyfleoedd â phosibl i chi gyfathrebu gyda mi, a'r heddlu, er mwyn i mi allu sicrhau bod penderfyniadau a thrafodaethau allweddol yn cael eu hysbysu gennych chi.

Diben y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu hon yw amlinellu sut y byddaf i, gyda chefnogaeth fy Nhîm Ymgysylltu, yn gwneud hyn. Prif egwyddor ein Strategaeth yw y byddwn yn ymroi i geisio'ch barn; byddaf yn gwrandao ar eich pryderon ac yn gweithio ar eich rhan.

Dymunaf hyrwyddo diwylliant o ymgysylltu cyhoeddus a chyfranogiad cyhoeddus parhaus fel arfer safonol ar draws yr heddlu. Siaradwch â ni; rhowch wybod i ni beth yw'ch barn."



**Dafydd Llywelyn**  
**Comisiynydd Heddlu a Throseddau**

## 2.0 Neges gan y Tîm Ymgysylltu


"Rydym yn gweithredu fel eiriolwyr ymgysylltu'r Comisiynydd, gan gynnig cyswllt rhwng y Comisiynydd a'r cyhoedd, er mwyn galluogi i'r Comisiynydd ddeall, gwrandao ac ymateb i'ch anghenion lleol.

Fel preswylwyr Dyfed-Powys ein hunain, mae'n galonddid fod gennym Gomisiynydd sydd mor frwdfrydig a chefnogol ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd, ac yn benodol wrth ddefnyddio'r wybodaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddo, i'w helpu i wneud penderfyniadau, datrys problemau, a lobbio.


Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni ymdrechu'n barhaus i gynorthwyo'r Comisiynydd wrth ddatblygu'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd, ac rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu dulliau newydd, ac ar yr un pryd, yn cadw'r dulliau profedig yn fyw.

Fel y mae'r Comisiynydd yn datgan yn ei neges, prif egwyddor ein Strategaeth Ymgysylltu yw y byddwn ni'n estyn allan ac yn dod atoch chi. Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda chymunedau ar lawr gwlad; yn ymweld â grwpiau cymunedol, cyfleusterau addysgol, elusennau, busnesau, ac unigolion i geisio'ch barn.

Diolch o galon i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i siarad â'r Comisiynydd a ni hyd yma. Gobeithiwn gyrraedd hyd yn oed fwy ohonoch chi'n fuan! Os hoffech chi ymgysylltu â'r Comisiynydd a'n tîm, cysylltwch â:

 01267 226440

 [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)

 Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner

 @DPOPCC

Diolch! Y Tîm Ymgysylltu"

### 3.0 Beth y mae 'Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu' yn ei olygu?

'Ymgysylltu' o fewn y gymuned yw'r broses o weithio ar y cyd gyda'r cyhoedd i roi'r cyfle iddynt ddweud eu dweud a lleisio'u barn.

'Cyfathrebu' yw'r weithred o drosglwyddo negeseuon, gwybodaeth a syniadau o un grŵp i un arall.

Gan hynny mae ein 'Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu' yn amlinellu sut y byddwn yn cydweithio gyda chymunedau Dyfed a Phowys, a sut y byddwn yn eich hysbysu chi ac yn rhannu gwybodaeth a syniadau.

### 4.0 Pam ein bod ni eisiau Ymgysylltu a Chyfathrebu

Wedi'u hamlinellu o fewn [Cynllun Heddlu a Throsedd](#) y Comisiynydd, o dan un o'i brif flaenoriaethau i gysylltu â chymunedau, y mae'r blaenoriaethau sy'n gyrru ein hymgysylltiad. Rydym yn ymgysylltu:

- 1) I godi ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh), a sut y gall Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) eich cefnogi chi;
- 2) I gael dealltwriaeth wirioneddol o'n cymunedau trwy ymgysylltu â chi ar amryw faterion i alluogi i'r Comisiynydd lobio ar eich rhan. Bydd hyn yn arwain at ymdriniaeth fwy targedig i ddatrys problemau yn y cymunedau sy'n caniatáu ymateb cyfiawnder lleol yn unol â dymuniadau'r dioddefwr;
- 3) I feithrin ymddiriedaeth a hyder trwy annog rhyngweithio rhagweithiol rhwng yr heddlu a'r cyhoedd;
- 4) I'ch hysbysu chi o wybodaeth yn ymwneud â'r heddlu sy'n bwysig i chi;
- 5) I sicrhau bod holl aelodau ein cymunedau, gan gynnwys grwpiau amrywiol, yn cael cyfle i ymgysylltu trwy amrywiaeth o ddulliau a bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth hygyrch ac ymatebol;
- 6) I gyfoethogi ein galluedd i fynd i'r afael â throseddau mwy cymhleth trwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol trwy gysylltiadau â busnesau, y byd academiaidd a thrwy archwilio cyfleoedd prentisiaethau;
- 7) Ymgynghori a chydweithio gyda chi er mwyn gwella plismona ar lefel leol, ar draws yr heddlu, yn genedlaethol ac ar lefel y DU; ac
- 8) I wella ein dealltwriaeth o gymunedau er mwyn i ni ymateb yn briodol i sut y mae cymunedau penodol a grwpiau cymunedol eisiau ymgysylltu.

## 5.0 Egwyddorion allweddol ein Strategaeth

Rydym yn gwbl ymrwymedig i gadw at [Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru](#). Bydd yr holl egwyddorion a ganlyn yn cael eu cynnwys yn y ffordd y byddwn ni'n gweithio; ein tasgau dyddiol a'n rhaglen hirdymor o ymgysylltu a chyfathrebu:

- 1) Ymgysylltu wedi'i gynllunio'n effeithiol i wneud gwahaniaeth;
- 2) Annog a galluogi pawb sydd wedi'u heffeithio i gymryd rhan, os ydynt yn dewis gwneud hynny;
- 3) Ymgysylltu wedi'i gynllunio a'i gyflenwi mewn modd prydlon a phriodol;
- 4) Gwaith gyda sefydliadau partner perthnasol;
- 5) Ni fydd y wybodaeth sy'n cael ei darparu yn cynnwys unrhyw jargon, a bydd yn briodol ac yn ddealladwy;
- 6) Yn ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan;
- 7) Galluogi i bobl gymryd rhan yn effeithiol;
- 8) Ymgysylltu yn derbyn yr adnoddau a'r gefnogaeth gywir i fod yn effeithiol;
- 9) Pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad; ac
- 10) Yn dysgu ac yn rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu.

Gweler [Atodiad A](#) am fanylion pellach ar bob egwyddor unigol.

Yn ychwanegol at yr Egwyddorion Cenedlaethol hyn, byddwn yn cadw at Safonau'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn gonglfaen i ethos Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Heddlu Dyfed-Powys wrth gynrychioli'r fro Gymraeg. I'n cefnogi ni wrth hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn cofleidio'n llawn y newidiadau sy'n ofynnol ohonom trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddwn yn ymroi i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'n cymunedau.

Wrth ymgymryd â gwaith ymgysylltu a chyfathrebu gyda'n cymunedau, byddwn hefyd yn ystyried ein Memorandwm Dealltwriaeth gyda Thîm Cyfathrebu Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys, a chyfleoedd ar gyfer gweithio ehangach mewn partneriaeth.

Pan fydd yn briodol, byddwn yn gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid eraill i gynnal ymgynghoriadau ar y cyd, cyfathrebu a gweithgaredd ymgysylltu â'r gymuned.

## 6.0 Gyda phwy y byddwn ni'n Ymgysylltu ac yn Cyfathrebu

- 1) Preswylwyr a pherchnogion busnes;
- 2) Dioddefwyr trosedd;
- 3) Sefydliadau ieuenctid ac ysgolion;
- 4) Grwpiau 'anodd eu cyrraedd' ac wedi'u tangynrychioli;
- 5) Cynghorau Sir, Tref a Chynghorau Cymuned;
- 6) Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol Lleol;

- 7) Staff a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys;
- 8) Ein Gwirfoddolwyr – aelodau Panel Sicrwydd Ansawdd, Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, ac Ymwelwyr Lles Anifeiliaid;
- 9) Partneriaid trydydd sector, sector cyhoeddus a sector Preifat, gan gynnwys ein Partneriaid Cyfiawnder Troseddol;
- 10) Partneriaid Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, gan gynnwys pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru)
- 11) Llywodraeth Cymru; a
- 12) Llywodraeth y DU.

Wrth gwrs, mae'n bwysig ymgysylltu a chyfathrebu gyda'r uchod i gyd, ac er ein bod wedi sefydlu cysylltiadau â'r mwyafrif yn barod, rhaid i ni ddatblygu ymhellach y broses yr ydym yn ei defnyddio i gysylltu â phreswylwyr a chymunedau ar draws Dyfed a Phowys. Er mwyn ein cynorthwyo gyda hyn, rydym yn datblygu rhwydwaith o Lysgenhadon Cymunedol, a fydd yn aelodau gweithredol o fewn eu cymuned leol. Gobeithiwn weithio gyda hwy i rannu negeseuon allweddol ac i ymgysylltu â'r grwpiau y maent yn eu cynrychioli.

Yn unol â hyn, mae [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn rhestru nifer o amcanion; mae'r cyntaf yn adleisio ein hethos ymgysylltu uchod: "*Sicrhau bod holl aelodau ein cymunedau yn cael cyfle i ymgysylltu.*"

Fel y nodir uchod, rydym yn datblygu ein hymdriniaeth er mwyn ceisio'i gwneud yn haws i bawb ymgysylltu: Gwyddom fod bywyd yn brysur, ac fe all hi fod yn anodd mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ac ymateb i ymgynghoriadau. Dyna pam y byddwn ni'n dod atoch chi. Rydym yn rhoi gwerth ar gwrdd wyneb yn wyneb, a byddwn yn gweithio ochr yn ochr â digwyddiadau a darpariaethau cymunedol cyfredol i ymgysylltu. Bydd yr ymgysylltiad wyneb yn wyneb hwn yn cael ei gefnogi gan ymgysylltu ar-lein.

Fel y crybwyllir uchod, byddwn hefyd yn targedu sectorau penodol o'n cymunedau mewn ymdrech i geisio eu barn a'u safbwyntiau; rheini sydd o bosibl yn anos eu cyrraedd trwy'r fethodoleg gyffredinol yr ydym yn ei mabwysiadu, neu sydd wedi'u tangynrychioli yn ein canfyddiadau ymgysylltu. Gweler isod rhai o'r grwpiau hyn:

### **Pobl ifanc**

Mae'r Comisiynydd yn teimlo'n angerddol am feithrin perthynas gref gyda phobl ifanc, ac eisiau deall yn well y ffactorau risg sy'n arwain pobl ifanc at drosedd ac anhrefn a'u helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol mewn bywyd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn mabwysiadu ymdriniaeth tair haen tuag at ymgysylltu â'r ieuencid:

1. Mewnbwn Strategol – Y Fforwm Ieuentid – Y Fforwm yw'r prif gyswllt ffurfiol rhwng pobl ifanc Dyfed-Powys a'r Comisiynydd, a bydd yn gyrru cyfeiriad cyffredinol ein rhaglen ymgysylltu ag ieuentid. Bydd aelodau fforwm yn cael eu galw yn Llysgenhadon Ieuentid, gan gynrychioli'n uniongyrchol farnau eu hysgol neu grwpiau ieuentid cymunedol. Byddant yn cynnig cyswllt uniongyrchol rhwng y Comisiynydd a'u grŵp ar lawr gwlad;
2. Gweithio mewn Partneriaeth gyda Grwpiau Cyfredol – Rydym eisoes wedi creu cysylltiadau ystyrlon gyda nifer o grwpiau ieuentid cyfredol sydd â diddordeb mewn bod yn Llysgenhadon Cymunedol i ni ac rydym yn edrych i feithrin cysylltiadau pellach trwy gydol y flwyddyn;
3. Cyrraedd yr 'Anodd eu Cyrraedd' - mae gennym ddiddordeb penodol mewn gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu â phobl ifanc a allai gael eu colli trwy'r ymdriniaeth uchod, h.y. troseddwr ifanc a / neu bobl ifanc fregus.

### **Dioddefwyr**

Gall trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr. Mae'r Comisiynydd yn awyddus i wella profiad y dioddefwr ac mae'n comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth i ymdopi gydag effaith trosedd a'i oresgyn.

Mae'n hanfodol bod dioddefwyr trosedd yn gwybod pa wybodaeth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt. Bydd ein hymagwedd tuag at ymgysylltu â dioddefwyr yn dilyn patrwm â haenau tebyg i un yr ymagwedd tuag at Ymgysylltu ag Ieuentid.

### **Cynrychiolwyr holl sectorau ein cymunedau**

Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu'n llawn â phob rhan o'r gymuned, ac rydym eisiau galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu'n rhwydd â ni; rhaid adnabod rhwystrau at wahanol grwpiau a mynd i'r afael â hwy.

Yna byddwn yn mabwysiadu ein methodoleg a'n hymagwedd tuag at ymgysylltu a chyfathrebu i sicrhau bod cynrychiolwyr o bob grŵp o fewn ein cymunedau yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

## **7.0 Sut y byddwn yn Ymgysylltu ac yn Cyfathrebu**

Ein nod yw rhoi cyfle i fwy o breswylwyr ddweud eu dweud a chael mynegi eu barn; iddynt gael effaith ar blismona ar lefel leol, lefel heddlu ac ar lefel genedlaethol. Rydym hefyd eisiau hysbysu ein cymunedau a'n partneriaid am faterion plismona pwysig, a rhoi diweddariadau ac adborth iddynt yn ôl yr angen. Rydym eisoes yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu,



ac fel y nodir uchod, rydym yn gweithio ar ddatblygu ein hymdriniaeth er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yw "gwella ein dealltwriaeth o gymunedau fel ein bod yn gallu ymateb yn briodol i sut y mae cymunedau a grwpiau cymunedol penodol eisiau ymgysylltu". Gan hynny, prif nodwedd yn ein hymdriniaeth yw y byddwn yn ymdrechu'n barhaus i ganfod hoff ddulliau cymunedau o ymgysylltu; bydd ein gwaith Ymgyrch Cynefin yn ein cynorthwyo ni gyd hyn.

Roedd Ymgyrch Cynefin yn brosiect ymgynghori a ddatblygwyd gan Dîm Cyfathrebu Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys. Ymgynghorwyd â thair cymuned benodol yn Nyfed-Powys - Tycroes, Dwyrain Aberdaugleddau, a Thregaron. Galluogodd Ymgyrch Cynefin i Heddlu Dyfed-Powys gael dealltwriaeth fwy penodol o sut yr oedd y cymunedau hyn o fewn Heddlu Dyfed-Powys yn teimlo am nifer o faterion plismona: materion plismona penodol yn lleol iddynt, y ffactorau sy'n effeithio ar p'un a yw pobl yn dewis adrodd am ddigwyddiadau a throsedd wrth yr heddlu, ac yn bwysicach, pa ffordd y mae'n well ganddynt ymgynghori a chysylltu â Heddlu Dyfed-Powys.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol i sicrhau llwyddiant parhaus y Prosiect hwn, ac i barhau i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl o ran sut y mae'n well gan gymunedau penodol ymgysylltu a chyfathrebu.

Unwaith y bydd gennym y wybodaeth hon, gallwn ymroi i ymgysylltu a chyfathrebu gyda'r gymuned:

1. Byddwn yn **ymgyngori** â phobl leol ac yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau. Y prif ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu a ddefnyddir i ymgynghori fydd:
  - Arolygon – ar-lein ac wyneb yn wyneb;
  - Polau cyflym ar gyfryngau cymdeithasol;
  - Trafodaethau gyda'r cyhoedd a phartneriaid mewn sioeau a digwyddiadau'r haf;
  - Grwpiau ffocws gyda grwpiau cymuned, cyfleusterau addysgol, elusennau a busnesau;
  - Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid;
  - Ymgysylltu â dioddefwyr

Dywedodd Dafydd Llywelyn: "Bydd Cymunedau yn cael cynnig cyfle i hysbysu penderfyniadau allweddol."

2. Byddwn yn **hysbysu** cymunedau ar yr hyn sy'n cael ei wneud ac yn rhoi adborth iddynt. Y prif ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu a ddefnyddir fydd:
  - Cyfarfodydd cyhoeddus – cyfarfodydd rhagweithiol ac ymatebol;

- Ein 'Cylchlythyr Cyswllt Cymunedol' bob yn ail fis;
- Ein gwefan;
- Trafodaethau gyda'r cyhoedd a phartneriaid mewn sioeau a digwyddiadau haf;
- Cyfryngau cymdeithasol – ar hyn o bryd trwy Twitter, Facebook ac YouTube;
- Darparu adborth i grwpiau yn dilyn ymgynghoriad neu drafodaethau;
- Diwrnodau Agored;
- Datganiadau i'r wasg;
- Colofnau misol mewn papurau newydd;
- Cyfweiliadau teledu a radio; ac
- Erthyglau Papurau Bro.

Dyweddodd Dafydd Llywelyn: *"Byddaf yn sicrhau bod y penderfyniadau yr wyf yn eu gwneud sy'n effeithio'n sylweddol ar gymunedau yn agored ac yn dryloyw."*

3. Byddwn yn **cynnwys** cymunedau wrth lunio a chraffu ar wasanaethau lleol. Ymhlith y prif ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu a ddefnyddir er mwyn cynnwys fydd:

- Dyddiau Ymgysylltu â'r Gymuned;
- Cyfarfodydd Cyhoeddus – cyfarfodydd rhagweithiol ac ymatebol;
- Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid;
- Ymgysylltu â dioddefwyr; ac
- Ein cynlluniau gwirfoddoli – Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, Ymwelwyr Lles Anifeiliaid, Cyd-bwyllgor Archwilio, ac aelodau Panel Sicrwydd Ansawdd.

Dyweddodd Dafydd Llywelyn: *"Rwyf eisiau i'r cyhoedd gydweithio gyda mi ar faterion plismona a chyfiawnder troseddol yn lleol er mwyn i ni wynebu a datrys problemau gyda'n gilydd."*

## 8.0 Ystyriaethau Ymgysylltu

Wrth ymgymryd â'n gwaith ymgysylltu a chyfathrebu gyda'r cyhoedd a phartneriaid, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried:

1) Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae'r Gymraeg yn gonglfaen yn ethos Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a Heddlu Dyfed-Powys wrth gynrychioli'r Fro Gymraeg. I'n cefnogi ni i hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn cofleidio'n llawn y newidiadau sy'n ofynnol ohonom trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddwn yn ymroi i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'n cymunedau. Mae'r GDPR yn hanfodol yn ein gwaith ymgysylltu, gan ein bod yn casglu gwybodaeth bersonol a barnau preifat yn rheolaidd, a rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n ceisio caniatâd gan y rheini sy'n dymuno rhannu'r wybodaeth hon gyda ni.

- 2) Caniatâd Rhieni / Gwarcheidwaid – wrth weithio gyda phobl ifanc, mae'n bwysig ein bod ni'n cael caniatâd rhieni / gwarcheidwaid.
- 3) Asesiadau Risg – bydd y rhain yn cael eu cynnal er mwyn adnabod peryglon a ffactorau risg yn ymwneud â'n gwaith ymgysylltu sydd â'r potensial i achosi niwed. Rhaid i'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob perygl gael eu dadansoddi, ac mae'n bosibl y bydd angen sefydlu mesurau rheoli priodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried diogelwch personol a gweithio unig.

## 9.0 Gwerthusiad o'n Strategaeth – Mesur Llwyddiant

Mae'r Strategaeth hon yn ddogfen waith; h.y. bydd yn cael ei diweddarau a'i hadolygu'n rheolaidd wrth i'n hymagwedd tuag at ymgysylltu a chyfathrebu ddatblygu.

Er mwyn adolygu ein hymdriniaeth, bydd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hystyried yn chwarterol:

- 1) A ydym yn datblygu ac yn gweithredu pob agwedd ar ein Strategaeth?
- 2) A ydym yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r holl grwpiau yr ydym wedi'u rhestru, ac a ydym yn datblygu ein hymdriniaeth – yn unol â'n [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) – i'n galluogi ni i wneud hyn yn llwyddiannus?
- 3) A ydym yn darparu cyfleoedd hanfodol i'n cymunedau lleol i hysbysu a dylanwadu ar benderfyniadau?
- 4) A ydym yn codi ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd?



## Atodiad 1

## EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU 'R CYHOEDD YNG NGHYMRU



- 1** Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth  
Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.
- 2** Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny  
Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.
- 3** Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol  
Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/fiau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.
- 4** Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol  
Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.
- 5** Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall  
Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.
- 6** Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan  
Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.
- 7** Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol  
Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.
- 8** Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol  
Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.
- 9** Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad  
Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.
- 10** Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu  
Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Calodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brit Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o [www.participationcymru.org.uk](http://www.participationcymru.org.uk)  
Mawrth 2011

## NATIONAL PRINCIPLES FOR PUBLIC ENGAGEMENT IN WALES



### 1 Engagement is effectively designed to make a difference

Engagement gives a real chance to influence policy, service design and delivery from an early stage.

### 2 Encourage and enable everyone affected to be involved, if they so choose

The people affected by an issue or change are included in opportunities to engage as an individual or as part of a group or community, with their views both respected and valued.

### 3 Engagement is planned and delivered in a timely and appropriate way

The engagement process is clear, communicated to everyone in a way that's easy to understand within a reasonable timescale, and the most suitable method/s for those involved is used.

### 4 Work with relevant partner organisations

Organisations should communicate with each other and work together wherever possible to ensure that people's time is used effectively and efficiently.

### 5 The information provided will be jargon free, appropriate and understandable

People are well placed to take part in the engagement process because they have easy access to relevant information that is tailored to meet their needs.

### 6 Make it easier for people to take part

People can engage easily because any barriers for different groups of people are identified and addressed.

### 7 Enable people to take part effectively

Engagement processes should try to develop the skills, knowledge and confidence of all participants.

### 8 Engagement is given the right resources and support to be effective

Appropriate training, guidance and support are provided to enable all participants to effectively engage, including both community participants and staff.

### 9 People are told the impact of their contribution

Timely feedback is given to all participants about the views they expressed and the decisions or actions taken as a result; methods and form of feedback should take account of participants' preferences.

### 10 Learn and share lessons to improve the process of engagement

People's experience of the process of engagement should be monitored and evaluated to measure its success in engaging people and the effectiveness of their participation; lessons should be shared and applied in future engagements.

These Principles were developed by Participation Cymru working with TPAS Cymru, under the guidance of the Participation Cymru partnership. Endorsed by The First Minister of Wales, The Right Hon. Carwyn Jones AM on behalf of the Welsh Government. Further guidance on the National Principles can be found at

[www.participationcymru.org.uk](http://www.participationcymru.org.uk)

March 2011